Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

## 2023 Rhif 944 (Cy. 154)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) (Diwygio) (Cymru) 2023

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990 (O.S. 1990/851) ("Rheoliadau 1990") yn gosod cyfyngiadau ar weithgareddau gwleidyddol cyhoeddus swyddogion llywodraeth leol a benodir i swyddi sy'n swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol, neu a gyflogir mewn swyddi o'r fath, at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42) ("Deddf 1989"). Mae'r cyfyngiadau ar ffurf telerau ac amodau y bernir eu bod wedi eu hymgorffori yn nhelerau penodiad ac amodau cyflogaeth y swyddogion hynny ("y cyfyngiadau").

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 2021) at Reoliadau 1990 er mwyn gosod y cyfyngiadau ar weithgareddau gwleidyddol cyhoeddus swyddogion cyd-bwyllgorau corfforedig sy'n ddeiliaid swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol yng Nghymru at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf 1989.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau a gorchmynion cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar adeg gwneud y rheoliadau sefydlu hynny a dibynnir arno at ddiben y Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 944 (Cy. 154)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) (Diwygio) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *31 Awst 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *1 Medi 2023* |
| *Yn dod i rym* | *2 Hydref 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1(5), (6) a (12) a 191(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, dod i rym a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) (Diwygio) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 2 Hydref 2023.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1989 p. 42. Mewnosodwyd adran 1(12) gan reoliad 10(2)(c) o O.S. 2021/1349.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, ac maent wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygiad i Reoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990**

**2.** Mae Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**3.** Yn rheoliad 2, yn y lle priodol mewnosoder—

"“local authority” includes a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021(**2**);”.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
31 Awst 2023

(**1**) O.S. 1990/851, a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/1310; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
(**2**) 2021 dsc 1.